

# ADEILADU GWEITHLU SY'N ADDAS AR GYFER Y DYFODOL, HEDDIW

Wedi'i  
Ariannu'n  
Llawn\*

Cwrs Prifysgol Byr a Hyblyg:

## GWEITHGYNHYRCHU CLYFAR GYDA DIWYDIANT 4.0

» Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0

» Diwydiant 4.0 Uwch neu Dylunio ar gyfer Diwydiant 4.0

“ Mae Diwydiant Cymru yn gwbl gefnogol i'r rhaglenni UE hyn. Ar adeg o newid a her sylweddol i sector Gweithgynhyrchu Cymru, mae'r gwaith hwn yn amserol ac yn hollbwysig. Gyda hanes sefydledig o ddarparu atebion sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni gwaith o'r fath. ”

James Davies, Prif Swyddog Gweithredol – Diwydiant Cymru.



Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



## **Sicrhewch fod eich tîm yn barod at y dyfodol gyda MADE Cymru**

Ym myd gweithgynhyrchu sy'n esblygu'n gyson, mae Gweithgynhyrchu Clyfar gyda Diwydiant 4.0 yn gyfle i archwilio technolegau sydd â'r potensial i gynyddu effeithlonrwydd, cynyddu cynhyrchiant a diogelu busnesau at y dyfodol.

### **Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0** **Mae'r pynciau'n cynnwys:**

- » Strategaethau gweithgynhyrchu meddwl darbodus sy'n elwa ar dechnolegau Diwydiant 4.0.
- » Mapio Ffrwd Gwerth i nodi technoleg effaith economaidd bosibl.
- » Manteision posibl Rhyngrwyd Diwydiannol Pethau.
- » Gweithgynhyrchu clyfar gan gynnwys egwyddorion Ffatri'r Dyfodol.
- » Rôl data, gan gynnwys effeithiau cyfrifiadura cwmwl a seiberddiogelwch.

### **Diwydiant 4.0 Uwch** **Mae'r pynciau'n cynnwys:**

- » Cymwysiadau technoleg uwch gan gynnwys realiti rhithwir, estynedig a chymysg.
- » Nodi manteision efelychu 'efeilliaid digidol'.
- » Dileu aneffeithlonrwydd gan ddefnyddio'r 'llynyn digidol'.
- » Systemau arwain, llywodraethu a moeseg technolegau Diwydiant 4.0.

### **Dylunio ar gyfer Diwydiant 4.0** **Mae'r pynciau'n cynnwys:**

- » Technegau Dylunio ac Optimeiddio Cynhyrchu ar gyfer strategaethau gweithgynhyrchu Diwydiant 4.0.
- » Methodolegau dylunio ar gyfer Cydosod Awtomataidd, Dadgydosod Awtomataidd ac ati.
- » Methodolegau Ansawdd Dylunio sy'n sail i'r defnydd o dechnoleg.
- » Dadansoddi Gwerth / Peirianeg Gwerth er mwyn sicrhau budd economaidd technolegau Diwydiant 4.0.

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster achrededig hwn gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, bydd myfyrwyr yn gallu adnabod technolegau Diwydiant 4.0 priodol ac effeithiol ar gyfer eu sefydliadau. Bydd ganddynt sgiliau allweddol i adnabod technolegau Diwydiant 4.0 a all sicrhau effaith economaidd ddilys, naill ai ar gyfer disgyblaethau Datblygu Prosesau neu Gynnyrch.

## Ffordd hyblyg o ddysgu tra byddwch yn gweithio

Rydyn ni'n cynnal ein sesiynau ar-lein ar brynhawniau Gwener bob wythnos, ac mae ein hamgylchedd dysgu rhithwir yn golygu y gallwch fynychu darlithoedd o unrhyw le, gyda chyfathrebu a chydweithredu amser real yn digwydd ar-lein rhwng cyfranogwyr y cwrs.

Mae'r carfanau'n cynnwys myfyrwyr o wahanol rolau, cefndiroedd a sectorau gweithgynhyrchu, ac mae hyn yn dod â chyfoeth i'r garfan a'r dysgu.

Bydd myfyrwyr yn gorffen y cwrs 32 wythnos gyda chymhwyster prifysgol achrededig, ond ni fydd angen iddyn nhw aros nes bydd y rhaglen wedi'i chwblhau i gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd ar unwaith.

Cyfres o raglenni yw MADE Cymru sydd wedi'u cynllunio i lywio sefydliadau drwy'r rhaglen Diwydiant 4.0 drwy ymchwil a datblygu cydweithredol ac uwchsgilio. Mae wedi'i hariannu'n rhannol/llawn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop/Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

### Rhestr lawn o gyrsiau ardstyedig Y Drindod Dewi Sant a gynigir gan MADE Cymru:

- » **Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0**  
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 5)
- » **Gweithgynhyrchu Clyfar gyda Diwydiant 4.0**  
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 7)
- » **Gweithgynhyrchu Uwch Diwydiant 4.0** (MSc Lefel 7)  
(opsiwn i astudio modiwlau unigol os dymunir)
- » **Gwella Busnes gyda Rheoli Arloesedd**  
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 7)
- » **Rheoli Arloesedd Rhyngwladol** (MSc Lefel 7)



**Yn ogystal â chyfleoedd dysgu, rydym ni hefyd yn gwahodd gweithgynhyrchwyr i gymryd rhan yn ein rhaglen Ymchwil a Datblygu cydweithredol Peirianeg Dylunio Uwch, lle gallwch elwa o gefnogaeth ac arbenigedd ein tîm, sy'n defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i gynnig ystod eang o ddulliau a thechnolegau a allai helpu i ddod â'ch prototeip neu gysyniad yn fyw.**

Mae gan dîm MADE Cymru hanes cadarn o weithio gyda chwmnïau a rhanddeiliaid yn y sector a gallant helpu i hwyluso cydweithio neu gynnig cyngor ac atgyfeiriadau. Gallwn eich cefnogi i lywio heriau gweithgynhyrchu modern a'ch helpu i ddod o hyd i'r ateb sydd ei angen arnoch.